# Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol: Cwestiynau Cyffredin

## Oes rhaid i chi fod yn Bennaeth neu'n Ddirprwy Bennaeth i gymryd rhan?

Nac oes, ddim o gwbl. Efallai eich bod yn Bennaeth y Flwyddyn, Arweinydd Maes Dysgu a Phrofiad, Arweinydd Cwricwlwm, Arweinydd Bugeiliol neu CADY. Os oes gennych gyfrifoldeb ysgol gyfan am unrhyw agwedd ar addysgu a dysgu, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Yn yr un modd, gallech fod yn athro dosbarth sydd â diddordeb arbennig mewn archwilio dysgu creadigol a chymryd yr arweiniad dros hyn yn eich ysgol.

## Oes rhaid imi fod yn gyfrifol am Faes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol neu weithio ynddo i gymryd rhan?

Nac oes, yn bendant. Mae creadigrwydd yn sgil hanfodol ar gyfer bywyd sy'n cyd-fynd â'r 4 Diben Craidd ac yn berthnasol i bob Maes Dysgu a Phrofiad. Mae addysgeg dysgu creadigol yn berthnasol ac yn ddefnyddiol wrth ddyfeisio profiadau arloesol, dilys ac atyniadol i bob disgybl.

## Oes rhaid inni fynd i'r digwyddiadau hyfforddi, rhwydweithio a rhannu?

Oes, mae rhaid. Mae hyn er mwyn sicrhau eich bod yn cael y gorau o'ch profiad ac yn elwa o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a ariennir gan Cyngor Celfyddydau Cymru/ Llywodraeth Cymru ac a gymeradwywyd gan Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru.

## Oes rhaid i ni gwrdd â'n hasiant creadigol am ddiwrnodau cyfan?

Nac oes, chi a'ch Asiant Creadigol sy'n penderfynu sut rydych chi'n dewis cynllunio'ch amser gyda'ch gilydd. Gallai hyn gynnwys rhai cyfarfodydd wyneb yn wyneb a rhai ar-lein; cymysgedd o wahanol gyfnodau o amser (er enghraifft, sesiwn gynllunio hanner diwrnod ac yna sesiynau dal i fyny bob wythnos am awr). Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i fod yn hawdd ei haddasu i gyd-fynd â'ch ymrwymiadau gwaith.

## Ydy'r Asiant Creadigol yn gweithio gyda ni a'r disgyblion?

Nac ydy, mae'r Asiant Creadigol yno fel hyfforddwr a mentor i chi'n bersonol drwy gydol y rhaglen. Chi yw canolbwynt y gwaith. Bydd yn amser gwerthfawr i chi oedi a myfyrio ar eich ymarfer a'ch arwain. Wrth gwrs y bydd unrhyw beth rydych chi'n ei ddarganfod drwy arbrofi o fudd i'r disgyblion yn y pen draw hefyd.

## Ydych chi'n talu am gyflenwi os oes angen?

Ydym. Rydym yn ariannu costau cyflenwi ichi fynd i'r hyfforddiant, y rhwydweithio a'r sesiynau rhannu. Talwn hefyd am eich Asiant Creadigol.

## Oes rhaid inni dreulio 18 wythnos ar y rhaglen?

Nac oes. Chi a'ch Asiant Creadigol sydd i benderfynu hynny. Mae'r rhaglen yn rhedeg am gyfnod rhwng 12 a 18 wythnos ac mae wedi'i chynllunio i gyd-fynd â dyddiadau'r tymor a'ch cyfrifoldebau yn yr ysgol. Rydym yn hyblyg oherwydd ein bod yn deall pa mor brysur y gall ysgolion fod a pha mor brysur ydych chi.

## Ydym ni i gyd yn ateb yr un ymholiad?

Nac ydych. Mae pob arweinydd ysgol ac asiant creadigol yn penderfynu ar eich nod dysgu ac arwain creadigol eich hunain ac ar y meysydd sydd o ddiddordeb i'w harchwilio a'u datblygu. Yna caiff hyn ei drafod fel ymholiad.

## Ydym ni'n cael ein cefnogi drwy gydol y rhaglen?

Ydych. Byddwch yn cael Arweinydd Prosiect yn y tîm Dysgu Creadigol yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal â'ch Asiant Creadigol. Mae ein holl Asiantau Creadigol ar y rhaglen arwain greadigol yn ymarferwyr creadigol profiadol a medrus. Yn ogystal, byddwn yn tynnu ar gyn-fyfyrwyr y rhaglen i rannu eu profiad gyda chi yn ogystal â dod â'r garfan bresennol at ei gilydd yn rheolaidd ar gyfer rhwydweithio a rhannu.

## Ydy'n costio unrhyw beth inni i gymryd rhan?

Nac ydy. Mae'r rhaglen yn cael ei chyd-ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru yn ogystal â chael ei chymeradwyo gan Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru.

Cymeradwywyd gan | Endorsed by
Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government